



**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 24
Mehafin 2021 am 3.00 pm

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn
bresennol:-:-**

Y Cyngorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Caple Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd D Grehan Y Cyngorydd G Hughes
Y Cyngorydd J Williams Y Cyngorydd W Owen
Y Cyngorydd D Williams Y Cyngorydd W Lewis

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Jones, Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi
Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd R Bevan

Y Cyngorydd J Elliott

1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafodd ymddiheuriadau am absenoldeb eu derbyn gan Gyngorwyr y
Fwrdeistref Sirol S. Powderhill a P. Jarman.

2 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau
mewn perthynas â'r Agenda.

**3 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI
DATBLYGU**

PENDERFYNWYD nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion
rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo
hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau,
wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd
sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i
hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

4 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

PENDERFYNWYD nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy
yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n

anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

5 COFNODION

ENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 15 Ebrill 2021 yn rhai cywir.

6 NEWID I DREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

7 CAIS RHIF: 20/1337/10

BIRCHWOOD, FFORDD LLWYDCOED, LLWYDCOED, ABERDÂR - Adeiladu 3 annedd ar wahân. Cadw'r annedd bresennol a gwaith cysylltiedig (Derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig ar 15/02/2021)

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Andrew Ayles (Gwrthwynebydd). Cafodd e bum munud i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu Mawr a Buddsoddi y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNWYD** gohirio'r cais er mwyn i'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu gynnal Archwiliad o'r Safle i drafod y broblem o ran llifogydd a pha mor agos yw'r datblygiad i eiddo cyfagos.

8 CAIS RHIF: 20/0219/10

ENTERPRISE RENT A CAR, HEOL CAERDYDD, Y DDRAENEN WEN, PONTYPRIDD - Canopi newydd ar gyfer y bae golchi ceir. (Derbyniwyd cynlluniau diwygiedig pellach, sy'n cynnwys manylion am ddrysau awtomatig y canopi, manyleb y gwneuthurwr a'r datganiad ategol, ar 26/4/21)

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Liam Farbrace (Asiant). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Rhoddodd y Pennaeth Datblygu Mawr a Buddsoddi amlinelliad o gynnwys dau lythyr 'hwyr' a dderbyniwyd gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. Fidler Jones oedd yn nodi rhai pryderon ynghylch y cais a Ms Dawn Parker yn gwrthwynebu'r cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar ychwanegu'r nodyn canlynol i'r caniatâd cynllunio:

- Er mwyn sicrhau eglurder, mae diffiniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol o'r term 'glanhau cerbydau', fel sydd wedi'i nodi yn amod 5 a 6, yn cyfeirio at olchi, glanhau, valet y tu fewn neu'r tu fas i'r cerbyd, boed hynny drwy ddefnyddio offer trydanol ai peidio.

9 CAIS RHIF: 20/1345/15

Amrywio amod 7 (gwerthu nwyddau) o ganiatâd cynllunio 98/4284/15. CAEAU TIRFOUNDER, CWM-BACH, ABERDŶR

Yn unol â Chofnod Rhif 168 ac 169 o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gafodd ei gynnal ar 29 Ebrill 2021, aeth y pwyllgor ati i drafod adroddiad y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd, sy'n amlinellu'r archwiliad o'r safle a gafodd ei gynnal ar 30 Mai 2021 mewn perthynas â'r cais uchod a chais 20/1346/15 isod. Roedd hyn mewn perthynas â'r cais a gafodd ei argymhell i'w gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Materion Cynllunio.

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Rob Mitchell (Ymgeisydd). Cafodd bum munud i gyflwyno'r cais uchod, a chais 20/1345/15 sydd wedi'i nodi yng nghofnod 9 isod, i'r Aelodau.

Yn ogystal â hynny amlinellodd gynnwys llythyr 'hwyr' a dderbyniwyd a oedd yn gwrthwynebu'r cais.

Clywodd yr Aelodau gan y Swyddog Rheoli Perygl Llifogydd a aeth i'r afael â phryderon yr Aelodau ynghylch y posibilrwydd o lifogydd ar y safle.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

10 CAIS RHIF: 20/1346/15

Amrywio amod 1 o'r cynlluniau wedi'u cymeradwyo yn rhan o ganiatâd cynllunio 18/0366/39. CAEAU TIRFOUNDER, CWM-BACH, ABERDŶR

Yn unol â'r manylion uchod yng nghofnod 9, cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

11 Cais 20/1336/15

Y TIR GER FFERM FERNHILL, ODDI AR STRYD CAROLINE/STRYD Y NANT, BLAENRHONDDA - Diddymu amod 13 (Arolwg strwythurol o'r bont ffordd) o ganiatâd cynllunio 19/0882/10 ar gyfer ffermdy dros dro, cabanau gwersylla moethus, storfa a gwaith datblygu cysylltiedig..

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

12 CAIS RHIF: 20/1342/10

11 annedd fforddiadwy a gwaith cysylltiedig. Derbyniwyd cynllun safle diwygiedig (storfa finiau wedi'i hadleoli a man amwynder a rennir) a lluniau/gweddlluniau ychwanegol mewn perthynas â llain 6, ar 9 Mawrth 2021.

HEN YSGOL GYNRADD MEISGYN, HEOL YR YSGOL, MEISGYN,

PONT-Y-CLUN

Yn unol â Chofnod Rhif: 166 o gofnodion y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gafodd ei gynnal ar 29 Ebrill 2021, aeth y Pwyllgor ati i drafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd, a oedd yn amlinellu canlyniad yr ymweliad â'r safle a gafodd ei gynnal ar 18 Mai 2021 mewn perthynas â'r cais a gafodd ei argymhell i'w gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

Yn ogystal â hynny amlinellodd gynnwys 4 llythyr 'hwyr' a dderbyniwyd, a oedd yn gwrthwynebu'r cais.

Rhoddodd y Pennaeth Materion Cynllunio wybod i'r Aelodau am ddiweddariad a dderbyniwyd gan Cadw yn ystod y cyfarfod mewn perthynas â chais i sefydlu'r safle'n safle rhestredig. Rhoddodd wybod i'r Aelodau bod Cadw wedi ymateb gan nodi nad oedd y safle'n bodloni'r meini prawf ar gyfer adeilad rhestredig.

Aeth ymlaen i gyflwyno'r cais i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar gwblhau cytundeb Adran 106, sy'n gofyn i'r datblygwr sicrhau bod anheddau'n cael eu sefydlu a'u cadw'n unedau fforddiadwy, at ddibenion parhaus bodloni'r anghenion lleol sydd wedi'u nodi o ran tai.

13 CAIS RHIF: 20/1171/10

Y TIR CYFERBYN Â 186 HEOL Y DWYRAIN, TYLORSTOWN, CF43 3BY (HEN SAFLE CAPEL Y BEDYDDWYR) - Adeiladu 4 o dai teras gyda maes parcio cwrtil cysylltiedig oddi ar y fynedfa gefn

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Bevan, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig.

Rhoddodd y Pennaeth Materion Datblygu Mawr a Buddsoddi amlinelliad o gynnwys llythyr hwyr a dderbyniwyd gan Mr Stephen Waldren (Asiant), a oedd yn cefnogi'r cais.

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu Mawr a Buddsoddi'r cais, a gafodd ei gyflwyno'n wreiddiol i'r Pwyllgor ar 20 Mai 2021, pan gymeradwyodd yr Aelodau'r cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Ffyniant a Datblygu (Cofnod 184).

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad pellach, a oedd yn tynnu sylw at gryfderau a gwendidau posibl cymeradwyo cais yn groes i argymhelliad swyddogion ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu am y rhesymau canlynol:

- O ganlyniad i'r dyluniad a'r cynllun, bydd yr anheddau arfaethedig yn cynnig cyfleusterau parcio anaddas ac annigonol a byddai'n sefydlu cyfleuster parcio ar ochr y ffordd yn yr ardal, a fydd yn cael effaith negyddol ar ddiogelwch y priffyrdd. Yn ogystal â hynny, byddai mas a dwysedd yr anheddau'n ormodol, gan arwain at orddatblygu ar y safle. Bydd hyn felly yn cael effaith negyddol ar olwg y stryd. Ni fyddai'r datblygiad yn cydymffurfio â Pholisi AW5 ac AW6 Cynllun Datblygu Lleol

Rhondda Cynon Taf na chanllawiau cynllunio atodol y Cyngor ar gyfer Mynediad, Cylchrediad a Gofynion Parcio.

14 TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

PENDERFYNODD yr Aelodau i basio'r penderfyniad heb ei grybwyll:

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad Paragraff 12 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.”

15 EN 21/00171

TIR YN ROSE ROW, HEOL PENDERYN, HIRWAUN - Newid defnydd y tir er mwyn lleoli carafanau at ddibenion preswyl (safle Sipsiwn/Teithwyr ar gyfer un teulu)

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Cynllunio'r adroddiad i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo cymryd camau gweithredu yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu, ond yn amodol ar leihau'r amser a argymhellwyd ar gyfer cydymffurfio o 12 mis i 6 mis o ddyddiad dod i rym yr hysbysiad. Mae hyn oherwydd bod y datblygiad yn cynyddu'r defnydd o'r lôn sydd heb ddigon o leiniau gweledd, man troi, sydd ddim yn ddigon llydan o ran y ffordd gerbydau, sydd heb gilfachau pasio na chyfanrwydd strwythurol digonol. Byddai hyn yn cael effaith negyddol ar ddiogelwch y priffyrdd a llif y traffig ar yr A4059, o ganlyniad i hyn, mae'r Pwyllgor o'r farn nad yw'r datblygiad yn cydymffurfio â Pholisïau AW5 ac NSA12 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

16 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

PENDERFYNODD yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 10/05/2021 – 11/06/2021.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 pm

**Y Cyngorydd S Rees
Cadeirydd.**